

Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol

Mehefin 2020

Ar 29 Rhagfyr 2019 dywedodd Comisiwn Iechyd Trefol Wuhan wrth [Sefydliad Iechyd y Byd](#) fod ganddo glwstwr o achosion o niwmonia. Maes o law, daeth i'r amlwg bod y rheini yn fath newydd o goronafeirws, COVID-19. Ar 28 Chwefror, [cadarnhawyd yr achos cyntaf yng Nghymru](#) ac ar 11 Mawrth 2020 dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 erbyn hynny'n bandemig.

Mae'r pandemig, a'r mesurau i reoli ei ymlediad, wedi cael effaith enfawr ledled y byd. Ar 17 Mawrth, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei hymyrraeth economaidd gyntaf gyda [phhecyn o gymorth i fusnesau bach](#). Ar 23 Mawrth, cyhoeddodd Prif Weinidog Prydain gyfyngiadau symud llym dros y DU gyfan, gan gau siopau nad oedd yn hanfodol a chan ei gwneud yn ofynnol i bawb, gydag eithriadau prin, [aros gartref](#).

Gwnaeth Prif Weinidog Cymru hefyd [ddatganiad](#) ar 23 Mawrth, a gwnaeth Llywodraeth Cymru [reoliadau](#) i gau rhai busnesau ac i'w gwneud yn ofynnol bod busnesau yn cymryd camau rhesymol i gadw pellter cymdeithasol, a chafodd y rheoliadau hynny eu pasio gan y Senedd. Mae llinell amser lawn o'r ymateb i'r pandemig ar gael yn [Erthygl Blog Gwasanaeth Ymchwil y Senedd](#).

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi ailffocysu ei waith i archwilio effaith COVID-19. [Ar 30 Ebrill](#) cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr busnesau ac undebau llafur ar gymorth ar gyfer busnesau a swyddi a diogelwch gweithwyr. [Ar 11 Mai](#) cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn trwy gyswllt fideo. Bydd y Pwyllgor yn clywed rhagor o dystiolaeth gan y rhai yr effeithiwyd arnyn nhw yn ystod yr wythnosau nesaf.

Lluniwyd yr adroddiad hwn fel crynodeb o ganfyddiadau **cynnar iawn** y Pwyllgor. Mae'n rhoi barn gyntaf y Pwyllgor ar y cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru, yn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu hystyried ymhellach neu feysydd sydd angen rhagor o waith, ac yn rhoi barn gychwynnol ar y blaenoriaethau posibl nesaf.



Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi **galwad agored am dystiolaeth** ar effaith COVID-19, a bydd yn rhyddhau rhagor o adroddiadau wrth i'w waith fynd rhagddo.

Economi

Mae'r economi fyd-eang wedi cael **ergyd drom gan y pandemig**. Aeth y marchnadoedd stoc ar i waered yn sydyn a bu cynnydd aruthrol yn y ffigurau diweithdra ledled y byd. Arweiniodd hyn at ymyriadau digynsail gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio sefydlogi'r economi a diogelu cymaint o swyddi â phosibl.

Yr ymateb cychwynnol

1. Er mwyn bod yn gefn i fusnesau Cymru yn ystod y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau pecyn heb ei debyg o gymorth i fusnesau. Ar 20 Mai, dywedodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru wrth y **Cyfarfod Llawn** fod y pecyn yn werth £1.7 biliwn neu “2.7 y cant o'r cynnyrch domestig gros.”
2. Esboniodd y Gweinidog fod y pecyn yn cynnwys:
 - cynllun benthyciadau gwerth £100 miliwn i helpu mwy na 1,000 o fusnesau drwy Fanc Datblygu Cymru;
 - cynllun grantiau cronfa cadernid economaidd gwerth £400 miliwn sydd wedi denu mwy na 9,500 o geisiadau cam 1, gyda dros 6,000 o gynigion eisoes wedi'u gwneud hyd yma, gwerth mwy na £100 miliwn; a
 - cymorth grant ar sail ardrethi annomestig i fusnesau bach a busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, sydd wedi dyfarnu 51,100 o grantiau gwerth mwy na £626 miliwn hyd yma.
3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Ebrill, soniwyd am broblemau gyda'r cymorth ac am fylchau yn y ddarpariaeth, ond serch hynny roedd yn amlwg bod cefnogaeth eang i'r ymyriadau a roddwyd ar waith hyd yma gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
4. **Dywedodd** Adrian Greason-Walker o Gynghair Twristiaeth Cymru fod y gefnogaeth a ddarparwyd gan y Llywodraeth ar bob lefel - ar yr wyneb ac yn gyffredinol - wedi bod yn eithaf hael, ond aeth rhagddo i ddweud bod rhai busnesau, yn anochel, wedi cwmpo trwy'r bylchau.

5. Dywedodd Josh Miles o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ei bod yn ffodus iawn bod gennym ni Fusnes Cymru a Banc Datblygu Cymru a'u bod nhw, fel asiantaethau yng Nghymru, wedi gallu ymateb yn gyflym iawn.

6. Roedd y sector busnes a'r undebau hefyd yn cydnabod y lefel uchel o ymgysylltiad o du'r Llywodraeth yn ystod yr argyfwng. **Dywedodd** Ian Price o CBI Cymru fod yr ymgysylltiad rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a busnesau yn eithriadol o dda, a dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru **wrth y Pwyllgor** fod TUC Cymru wedi ymgysylltu'n rheolaidd â Gweinidogion a bod Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgysylltu â TUC y DU.

Beth nesaf?

7. Mae'r pandemig wedi newid yr economi, a chymdeithas, mewn nifer o ffyrdd arwyddocaol. Teimlwyd effeithiau'r pandemig yn wahanol ar draws rhanbarthau Cymru ac mae rhai sectorau economaidd wedi dangos eu bod yn fwy bregus nag eraill. Bu cynnydd sydyn mewn diweithdra ac mae ffocws newydd hefyd ar lefelau cyflog staff y GIG a gweithwyr allweddol mewn sgysiaau cyhoeddus.

8. Nododd y Pwyllgor fod llawer o nodau economaidd strategol Llywodraeth Cymru yn aros yr un fath. Yn y sesiwn ar 11 Mai **dywedodd** y Gweinidog nad oedd rhai o'r nodau strategol mawr wedi newid. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod datgarboneiddio, gwaith teg, a lleihau anghydraddoldebau economaidd rhanbarthol yn parhau'n uchelgais i Lywodraeth Cymru.

9. Yn ei dystiolaeth, soniodd y Gweinidog hefyd fod cyfle i fynd ar drywydd yr uchelgeisiau hynny fel rhan o'r broses adfer ar ôl COVID-19. Fel enghraifft, cyfeiriodd at ddefnyddio pecynnau ysgogi i sbarduno twf a datgarboneiddio.

10. Soniodd y Gweinidog hefyd wrth y Cyfarfod Llawn mai nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau, o ran yr economi, trafniadaeth a sgiliau, fod Cymru yn barod i "ailadeiladu'n well er mwyn y genhedlaeth hon a'r cenedlaethau i ddod." Hoffai'r Pwyllgor glywed sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud hyn ac unrhyw gynllunio y mae wedi'i wneud.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor sut, yn ei barn hi, y gallai fod angen i'w dull economaidd presennol newid rhwng y tymor canolig a'r tymor hwy o ganlyniad i'r pandemig a rhoi awgrym cynnar o'r hyn yw "ailadeiladu'n well" ym marn y Gweinidog.

11. Ar 11 Mai, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn anodd dweud pa lefel o gyllid ychwanegol fyddai ei hangen gan Lywodraeth y DU ar gyfer cynorthwyo busnesau yn y tymor hwy oherwydd yr ansicrwydd ynghylch dyfodol y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS, a elwir yn gyffredin fel “ffyrlo”).

12. Ar 12 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU estyniad i'r CJRS tan fis Hydref 2020. Byddai gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod ymateb cychwynnol y Gweinidog i'r cyhoeddiad hwn, a sut, yn ei farn ef, y gallai hyn effeithio ar lefel y cyllid sydd ei angen yng Nghymru yn y tymor hwy.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am yr anghenion o ran cyllido cymorth busnes i Gymru yn y dyfodol yng ngoleuni'r ffaith bod y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi'i estyn tan fis Hydref 2020.

13. Mae'r Gweinidog wedi dweud bod Cymru wedi cael ei tharo'n arbennig o galed gan y pandemig. Dywedodd mai Cymru sydd â'r gyfran uchaf o fusnesau sy'n gwneud cais i'r CJRS ac mai Cymru hefyd sydd â'r gyfran uchaf o fusnesau sy'n gwneud cais yn gyffredinol am gynlluniau Llywodraeth y DU.

14. Gan fod cyllid strwythurol yr UE i fod i gael ei ddisodli gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y rhan y gallai'r gronfa newydd hon ei chwarae wrth fenthycy cymorth ychwanegol i helpu Cymru adfer o effeithiau'r pandemig.

15. Ar 12 Mai, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r ymgynghoriad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin i Bwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin. Yn yr adroddiad, mynegodd ei barn ar sut y dylai'r gronfa weithredu, a'r pwysigrwydd bod y cyllid ar gyfer y rhaglen hon ar gael o ddechrau 2021 ymlaen. O ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch sut y bydd y gronfa hon yn gweithredu, bydd angen eglurder am hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei ffordd o feddwl, a'i thrafodaethau â Llywodraeth y DU, mewn perthynas a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol ar y rôl y gallai'r gronfa newydd ei chwarae wrth fenthycy cymorth ychwanegol i helpu Cymru adfer o effeithiau'r pandemig, a'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau yn ymwneud â'r gronfa.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor fanylion unrhyw sylwadau y mae wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch pwysigrwydd cyllid ar gyfer rhaglenni cymorth busnes, prentisiaethau a sgiliau, i gynorthwyo Cymru i adfer o COVID-19.

16. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sylweddoli bod y pandemig yn cael effeithiau gwahanol yn rhanbarthau Cymru. Er i'r Gweinidog ddweud nad oedd yn rhagweld y byddai'r Bargeinion Twf yn cael eu hailwampio'n sylweddol, dywedodd hefyd mai amcan y Llywodraeth o hyd oedd cydbwyso'r economi ar draws yr holl ranbarthau.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei meddylfryd ynghylch polisi rhanbarthol yng ngoleuni'r pandemig a'r cymorth fydd yn angenrheidiol i wahanol ranbarthau; yn benodol pa newidiadau y gallai fod eu hangen i'r strwythurau presennol o gymorth rhanbarthol neu flaenoriaethau economaidd rhanbarthol.

Cymorth parhaus i sectorau

17. Fel y nodwyd uchod, mae'r cymorth cychwynnol wedi cael croeso eang a bu'n effeithiol gan mwyaf. Fodd bynnag, bydd rhai sectorau o'r economi yn arafach i adfer nag eraill, ac mae rhai yn wynebu bygythiadau a heriau sylweddol i'w hyfywedd hirdymor.

18. Cytunodd Cynghrair Twristiaeth Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain y bydd effaith anghymesur ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch. Mae twristiaeth yn debygol iawn o golli tymor yr haf, sef yr adeg y bydd mwyafrif y busnesau twristiaeth yn gwneud y rhan helaeth o'u hincwm, a bydd pellter cymdeithasol yn lleihau'n sylweddol nifer y cwsmeriaid mewn sefydliadau lletygarwch. Serch hynny, dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru fod llawer o fusnesau gwledig yn gallu darparu ar gyfer pellter cymdeithasol, ac felly byddai trin pob agwedd ar y diwydiant yn yr un ffordd yn annheg iddyn nhw.

19. Soniodd y Gweinidog hefyd y byddai angen cymorth penodol ar y sectorau Dur a Hedfan, yn ogystal â'r diwydiant Twristiaeth, a'i fod wedi trafod hyn â Llywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog fel a ganlyn: "I wouldn't wish to see any funding for sectors that are particularly prominent in Wales to be Barnettised, because that would essentially leave us with less funding per active enterprise than we might expect on the basis of a proportion of businesses engaged".

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cymorth i'r diwydiant twristiaeth.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cymorth i'r diwydiant dur.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cymorth i'r diwydiant hedfan.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am ei disgwyliadau o ran cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer sectorau sy'n ffurfio cyfran fwy o economi Cymru na rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys sut y gallai cyllid sy'n fwy na chyllid canlyniadol Barnett weithredu.

Argymhelliad 10. Pan fydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a chyson i bob busnes ynghylch cadw pellter cymdeithasol. Dylid rhoi'r canllawiau hyn i fusnesau mor fuan ymlaen llaw â phosibl er mwyn iddynt gael amser i baratoi.

20. Cododd Cynghair Twristiaeth Cymru a'r Ffederasiwn Busnesau Bach bryderon ynghylch y newidiadau i'r gofynion ar gyfer unedau hunanddarpar er mwyn iddyn nhw allu elwa o ryddhad ardrethi busnes annomestig. Dywedodd Cynghair Twristiaeth Cymru fod y newid hwn yn y gofynion yn cael ei ddefnyddio i 'gosbi' busnesau go iawn, a bod rhai awdurdodau lleol yn 'llusgo eu traed' ac yn araf i roi rhyddhad. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod cyflwyno meini prawf 'mwy cymhleth' nid yn unig yn golygu bod rhagor o waith i awdurdodau lleol ei wneud er mwyn rhyddhau'r grant ond hefyd yn golygu bod busnesau llety gwyliau 'yng nghefn y ciw' wrth i'r cyngorau brosesu'r ceisiadau symlaf yn gyntaf.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y newidiadau a wnaed i'r canllawiau ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes annomestig a sicrhau nad ydynt yn cosbi busnesau cyfreithlon nac yn cynyddu'r llwyth gwaith ar awdurdodau lleol.

Bylchau yn y cymorth

21. Er bod y cymorth wedi cael croeso eang, nid yw wedi cyrraedd pob busnes eto. Roedd Josh Miles o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn cymharu'r pecyn cymorth i rwyllwaith. Dywedodd er ei fod yn cwmpasu llawer o feysydd, fod ynddo fylchau hefyd. Rhoddodd rai enghreifftiau penodol:

- Pobl hunangyflogedig nad oedd ganddyn nhw gyfrifon diweddar, er enghraifft, oherwydd eu bod newydd ddod yn hunangyflogedig neu oherwydd eu bod wedi cymryd amser i ffwrdd ar ôl cael plant;
- Busnesau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn adeilad gan fod llawer o'r cymorth yn gysylltiedig â defnyddio adeiladau;
- Cwmnïau nad ydyn nhw wedi'u cofrestru ar gyfer TAW.

22. Aeth Mr Miles rhagddo i ddweud wrth y pwyllgor fod yna fusnesau sy'n gweithredu o adeilad ond lle mae eu landlordiaid yn talu eu hardrethi, ac nad yw'r busnesau felly'n gymwys i gael y grant yn uniongyrchol eu hunain. Credai fod y Gronfa

Cadernid Economaidd wedi helpu i ddatrys rhai o'r materion hynny ac roedd o'r farn y gellid mynd i'r afael â rhai o'r materion uchod yng Ngham 2 y Gronfa Cadernid Economaidd.

23. Ychwanegodd Mr Greason-Walker o Gynghrair Twristiaeth Cymru fod ymchwil gan Dwristiaeth Canolbarth Cymru a Thwristiaeth Bannau Brycheiniog yn ategu llawer o'r pwyntiau yr oedd Mr Miles wedi'u gwneud. Dywedodd hefyd nad oedd 24 y cant o'r ymatebwyr yn cyflogi staff, sy'n golygu nad ydyn nhw'n gymwys ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd.

24. Dywedodd Ian Price wrth yr Aelodau fod y busnesau a gynrychiolir gan CBI Cymru wedi cael, gan mwyaf, yr hyn yr oedden nhw ei eisiau o'r cynlluniau. Aeth rhagddo i **rybuddio'r** Pwyllgor pe na byddai busnesau llai yn cael y cymorth priodol, y gallai hynny fod yn 'niweidiol iawn' i drefi bach Cymru ac os bydd busnesau bach yn methu mae'n cael sgileffaith ar fusnesau mawr.

25. Yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mai, **dywedodd** y Gweinidog ei fod yn disgwyl ailagor gwiriwr cymhwysedd y Gronfa Cadernid Economaidd i geisiadau cam 2 erbyn canol mis Mehefin, ac roedd yn "disgwyl agor i geisiadau llawn yn ddiweddarach yn y mis."

26. Mae'r Aelodau'n deall bod y pecynnau cymorth wedi'u sefydlu yn ystod argyfwng ac na fyddent, o'r herwydd, yn gyflawn ar unwaith; fodd bynnag, mae'r bylchau hyn a'r cyflymder o ran eu llenwi yn peri pryder iddynt oherwydd mae rhai o'r bobl sydd wedi syrthio drwy'r bylchau hynny wedi bod mewn trafferthion ers mis Mawrth.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dadansoddiad o'r bylchau yn y cymorth i fusnesau gyda'r Pwyllgor.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru agor y gwiriwr cymhwysedd ar gyfer cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd, agor y cam hwn ar gyfer ceisiadau a dechrau gwneud taliadau cyn gynted â phosibl.

Data am Berfformiad

27. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn **nymuniad y Gweinidog i ddefnyddio data wedi'u dadgyfuno** ar y modd y mae banciau'r stryd fawr yn gweinyddu benthyciadau brys COVID-19. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb hefyd yn honiad y Gweinidog pan ddywedodd gorau oll po fwyaf o ddata y gallwn ei gael ar lefel Cymru. Dywedodd Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau Llywodraeth Cymru, y gellid defnyddio'r data hyn i gael gwell syniad o effaith gweithredoedd y Llywodraeth. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod pa wybodaeth ychwanegol y byddai'r Gweinidog am ei chrynhai ar lefel Cymru a sut y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r data hynny yn y cyfnod tymor byr ac yn ystod y broses adfer.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o unrhyw ddangosyddion y dylai Llywodraeth y DU, neu gyrff eraill, fod yn adrodd arnynt ar lefel Cymru a sut y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio'r broses adfer.

28. Roedd gan y Pwyllgor ddi-ddordeb hefyd i wybod bod y Gweinidog yn cael data wedi'u dadgyfuno ar effeithiau sectoraidd a rhanbarthol y coronafeirws. Mae'r Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r wybodaeth hon ar gael i'r Pwyllgor a sefydliadau eraill sy'n datblygu polisi i ymateb i'r pandemig yng Nghymru.

29. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i weld data ar y nifer sy'n derbyn cymorth ac effaith y pandemig ar wahanol grwpiau o fewn cymdeithas fel y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn ogystal â gwahanol feysydd daearyddol neu'r economi.

30. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed gan y Gweinidog bod yn rhaid i unrhyw fusnes sy'n gwneud cais am gymorth o'r Gronfa Cadernid Economaidd gytuno i'w manylion gael eu cyhoeddi, ac os byddan nhw'n cael grant, bydd eu manylion yn cael eu cyhoeddi. Byddan nhw, felly, ar gael i'r cyhoedd.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data am effeithiau'r pandemig COVID-19 ar sectorau ac ar ranbarthau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data ar y nifer sy'n manteisio ar ei mesurau cymorth economaidd yn rheolaidd yn ôl sector ac ardal awdurdod lleol, ynghyd ag effaith y mesurau hynny. Dylai'r data gynnwys cymorth a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru a chymorth ardrethi busnes a ddarperir gan awdurdodau lleol.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r set ddata lawn am fusnesau sydd wedi cael cymorth o'r Gronfa Cadernid Economaidd (gan gynnwys enw busnes, cyfeiriad, sector, maint y busnes a manylion y grant neu'r benthygiad a roddwyd).

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru roi adroddiad rheolaidd am effeithiau'r pandemig ar wahanol sectorau economaidd, ar ranbarthau Cymru ac ar wahanol rannau o gymdeithas (e.e. ar bobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol).

31. Roedd clywed bod gwahaniaeth rhwng Awdurdodau Lleol wrth ddsbarthu grantiau yn peri pryder i'r Aelodau. Yn sesiwn y Pwyllgor ar 30 Ebrill, cyfeiriodd y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chynghair Twristiaeth Cymru, ill dau, at yr anghysondebau hyn a dywedodd Josh Mills wrth yr Aelodau ei fod yn credu bod amrywiaeth yn y modd y mae awdurdodau lleol wedi gwthio'r grant a'r ymwybyddiaeth ohono.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data am gyflymder yr Awdurdodau Lleol o ran dosbarthu grantiau cymorth busnes.

Diogelwch yn y Gweithle

32. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'n trafod y canllawiau gweithle sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod o Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol ar 14 Mai. Ar 11 Mai, rhyddhaodd Llywodraeth y DU ganllawiau newydd ar gyfer cyflogwyr er mwyn helpu i gael eu busnesau yn ôl i weithio a sicrhau bod gweithleoedd yn gweithredu'n ddiogel. Bydd hyn yn gweithredu ledled y DU, ar y cyd ag unrhyw ganllawiau a deddfwriaeth a wneir gan y gweinyddiaethau datganoledig.

33. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y modd y bydd y dogfennau hyn yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'n nodi diweddariad dilynol y Gweinidog ar y maes hwn yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mai, lle dywedodd y byddai canllawiau Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar yr hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, yn ymgorffori rheoliadau Cymru ar gadw pellter cymdeithasol, ac yn canolbwyntio ar sectorau penodol yn hytrach nag ar weithleoedd.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o'r dyddiad y mae'n disgwyl cyhoeddi ei chanllawiau diogelwch mewn perthynas â dychwelyd i weithio, a darparu manylion am sut y bydd y canllawiau hyn yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â chanllawiau'r DU a gyhoeddwyd ar 11 Mai.

Argymhelliad 21. Wrth gyhoeddi ei chanllawiau diogelwch i'r sectorau mewn perthynas â dychwelyd i weithio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried blaenoriaethu nid yn unig y sectorau a fydd yn agor gyntaf ond hefyd y sectorau hynny lle bydd angen y gwaith mwyaf. Er enghraifft, efallai mai twristiaeth fydd un o'r sectorau olaf i ailagor, ond bydd angen i rai busnesau twristiaeth weithredu newidiadau strwythurol.

34. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi trafod monitro cydymffurfiaeth rheoliadau/canllawiau diogelwch newydd â'r awdurdodau lleol a bod yr awdurdodau lleol yn credu y byddent yn gallu ymdopi.

35. Fodd bynnag, yn sesiwn y Pwyllgor ar 30 Ebrill fe'i gwnaed yn glir gan gynrychiolwyr yr undebau llafur eu bod yn credu nad oedd yr awdurdodau lleol mewn sefyllfa i fonitro'r rheoliadau newydd yn ddigonol drwyddi draw gan fod yr adrannau'n rhy fach ac oherwydd bod yr awdurdodau lleol eisoes yn ei chael hi'n anodd.

36. Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru fod ôl troed yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch yng Nghymru yn rhy fach a bod yntau hefyd yn ei chael hi'n anodd. Ar 12 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n sicrhau bod hyd at £14

miliwn ar gael i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer gweithwyr, arolygwyr ac chyfarpar ychwanegol yn y canolfannau galwadau.

37. Yng ngoleuni'r pryderon a godwyd gan gynrychiolwyr yr undebau, roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y bydd y Gweinidog yn monitro'n agos capasiti'r awdurdodau lleol yn barhaus wrth i fusnesau ailagor, a byddai'n awyddus i glywed rhagor am sut y bydd y monitro hwn yn gweithio.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y bydd yn monitro capasiti awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau/canllawiau diogelwch wrth i fusnesau ailagor.

Argymhelliad 23. Os nad yw'r Gweinidog wedi gwneud hynny eisoes, dylai drafod gyda Llywodraeth y DU sut y gellir defnyddio'r cyllid ychwanegol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i orfodi mesurau diogelwch yn y gweithle yng Nghymru. Os cynhaliwyd y trafodaethau hyn eisoes, dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y canlyniad.

Trafnidiaeth

Oherwydd bod pobl wedi cael gorchymyn i aros gartref a pheidio â theithio dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol, effeithiwyd ar seilwaith trafndiaeth Cymru. Mae'r ffyrdd yn llawer tawelach, mae nifer y teithwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol ac mae mwyafrif y cwmnïau trafndiaeth gyhoeddus yn rhedeg llai o wasanaethau o lawer.

Trafnidiaeth gyhoeddus

38. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod pa ganllawiau fydd yn cael eu llunio ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus, pwy fydd yn eu llunio a phryd y byddan nhw'n cael eu cyhoeddi. Ar 6 Mai, dywedodd y Gweinidog wrth y Cyfarfod Llawn wrth ateb cwestiwn am ganllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus, fod gwaith wedi'i gomisiynu gan yr Adran Drafnidiaeth a fyddai'n "helpu i lywio'r gwaith o gynllunio capasiti a rheoli galw ar draws y boblogaeth."

39. Ar 11 Mai, dywedodd y Gweinidog wrth Aelodau'r Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau i deithwyr a gweithredwyr cerbydau hurio preifat a thacsis 'cyn gynted â phosibl.' Ar 12 Mai, cyhoeddodd Adran Drafnidiaeth y DU 'Coronavirus (COVID-19): safer transport guidance for operators'. Mae'r canllawiau hynny'n datgan mai eu diben yw amlinellu mesurau i asesu a mynd i'r afael â risgiau'r coronafeirws (COVID-19) yn y sector trafnidiaeth yn Lloegr. Ar 15 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod sy'n cyfeirio at ymgynghoriad disgwylidiedig ar ganllawiau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei ffordd o feddwl o ran y canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ar bob math o drafnidiaeth gyhoeddus. Yn benodol, sut y bydd y canllawiau a fydd yn gymwys yng Nghymru yn cael eu llunio, a chan bwy, a sut y byddant yn berthnasol i ganllawiau Llywodraeth y DU, gan gynnwys canllawiau'r Adran Drafnidiaeth y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn y Cyfarfod Llawn. Pryd fydd y canllawiau hyn ar waith yng Nghymru?

40. Yn sesiwn graffu'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y gallai cadw pellter cymdeithasol olygu mai dim ond 10 i 15 y cant o'r capasiti fyddai ar gael ar wasanaethau bysiau a rheilffyrdd. Mae'r Pwyllgor yn llwyr dderbyn bod angen cadw pellter cymdeithasol tra bod COVID-19 yn fygythiad i iechyd y cyhoedd, ond mae'r Aelodau'n pryderu pa mor ymarferol yw lleihau'r llwyth teithwyr.

41. Roedd Cledrau'r Cymoedd, a nifer o lwybrau bysiau, yn gweithredu hyd eithaf eu capasiti yn union cyn y cyfyngiadau symud. Bu llawer o sôn am brinder cerbydau trên a bu oedi o ran cael stoc newydd. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed pa ystyriaeth a roddwyd i hyn ac a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod digon o gerbydau trên/bysiau a gyrwyr ar gael i ateb y galw yn sgil y rheolau ar gadw pellter cymdeithasol.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r pwyllgor o'i hasesiad o'r bysiau a'r trenau sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, a nodi a yw hyn yn ddigonol i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol gan gadw pellter cymdeithasol, a rhoi manylion unrhyw gamau a gymerir i sicrhau bod digon o gapasiti.

42. Ar 31 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth i weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus o "hyd at £69m." Yng nghyfarfod y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y byddai angen £250 miliwn ychwanegol y flwyddyn i gefnogi gwasanaethau wrth iddyn nhw weithredu'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol. Byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn ychwanegol at y cymorthdaliadau presennol a delir gan Lywodraeth Cymru.

43. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb yn y cymhorthdal hwn a hoffent gael rhagor o fanylion am elfennau'r amcangyfrif o £250 miliwn. Soniodd y Gweinidog hefyd fod angen eglurder gan Lywodraeth y DU ar gyfer cymhorthdal ychwanegol yn y tymor hwy. Mae'r Aelodau yn awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am sail yr amcangyfrif o £250 miliwn y flwyddyn o gyllid ychwanegol y cyfeiriodd y Gweinidog ato, gan gynnwys sut y cyrhaeddwyd y ffigur hwn a'r rhaniad yn ôl modd. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn falch o gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y sicrheir y cyllid ychwanegol hwn.

Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

44. Pe na byddai'r pandemig wedi digwydd, byddai'r Pwyllgor ar hyn o bryd yng Nghyfnod 1 y gwaith craffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Yn ystod y sesiwn graffu ar 11 Mai bu'r Aelodau'n trafod y Bil gyda'r Gweinidog a'i swyddogion.

45. Dywedodd Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod y Bil yn rhan sylweddol o ddatblygiad polisi trafnidiaeth gyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod cynlluniau wrth gefn yn cael eu datblygu pe na byddai amser gan Lywodraeth Cymru i roi'r Bil gerbron y Senedd.

46. Mae'r Aelodau'n awyddus i gael gwybodaeth reolaidd am feddylfryd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Bil, ac am y cynlluniau wrth gefn; yn enwedig gan fod y Gweinidog wedi dweud na fyddai Llywodraeth Cymru eisiau colli'r Bil oherwydd ei bod ar fin datblygu system drafnidiaeth integredig.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o'r sefyllfa ddiweddaraf am y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a pha gynlluniau wrth gefn sy'n cael eu trafod os nad oes digon o le yn yr amserlen ddeddfwriaethol ddiwygiedig i gyflwyno'r Bil.

Maes Awyr Caerdydd

47. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ail-broffilio'r benthyciad a gytunwyd gyda'r Maes Awyr ar ddiwedd 2019. Eglurodd Simon Jones wrth y Pwyllgor fod y maes awyr, fel y mwyafrif o feysydd awyr tebyg, yn gwneud ei arian dros fisoedd yr haf ac y bydd i bob pwrpas, wedi colli gwerth blwyddyn o refeniw.

48. Mewn llythyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a anfonwyd cyn y cyfyngiadau symud, dywedodd Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn Llywodraeth Cymru, fod y benthyciad wedi'i gyhoeddi fel y gallai'r

maes awyr wneud nifer o welliannau i feysydd fel seilwaith a diogelwch, ac i agor llwybrau newydd. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb yn effeithiau ail-broffilio'r benthyciad ar y gwaith hwn.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar effaith ail-broffilio'r benthyciad i faes awyr Caerdydd, gan gynnwys pa rai o'r gwelliannau a gafodd eu clustnodi yn wreiddiol i'w hariannu a fydd yn cael eu gohirio a sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn lle hynny. Dymuna'r Pwyllgor gael gwybod hefyd a yw'n debygol y bydd angen unrhyw gyllid tymor byr arall i gynorthwyo'r maes awyr.

Gwelliannau dros dro i ddiogelwch a theithio cynaliadwy

49. Ar 7 Mai, cyhoeddodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth **ddatganiad ysgrifenedig** yn gwahodd awdurdodau lleol i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn cyflwyno gwelliannau diogelwch a mesurau teithio cynaliadwy dros dro fel y gallai pobl wneud teithiau hanfodol. **Dywedodd** y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai lefelau cyllido'r mentrau hyn yn dibynnu ar y cynigion a gyflwynir gan awdurdodau lleol. Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb oedd 21 Mai. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb yn y dull o alw am y datganiadau o ddiddordeb ac maent hefyd yn awyddus i glywed am y datganiadau a gyflwynwyd.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor y meini prawf a roddwyd i'r awdurdodau lleol i ddatblygu cynigion i sicrhau bod awdurdodau'n defnyddio dull tebyg wrth ddatblygu cynigion.

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y nifer sydd wedi derbyn y gwahoddiad gan gynnwys faint o geisiadau a wnaed, a'u lleoliad daearyddol.

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am sut y bydd cynigion yn cael eu hasesu, gan gynnwys y meini prawf.

Sgiliau

Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar y ddarpariaeth prentisiaethau a sgiliau. Er bod prentisiaid sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn brysur ar y rheng flaen yn ymateb i'r pandemig, mae rhannau helaeth o'r economi wedi

cael eu hatal dros dro, ac mae llawer efallai yn colli gwaith. Oherwydd y gorchymyn i aros gartref, mae dysgu bellach yn cael ei wneud ar-lein. Yn ogystal â chael effaith ar brentisiaid mae hyn hefyd wrth gwrs yn cael effaith ar ddarparwyr hyfforddiant a'u hisgontractwyr.

Yr effaith ar brentisiaid

50. Cred y Pwyllgor bod cael gweithlu medrus yng Nghymru yn allweddol i adfer yr economi. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn deall yn llawn yr effeithiau y mae'r pandemig yn eu cael ar y sector sgiliau, gan gynnwys prentisiaid a darparwyr hyfforddiant.

51. Yn ystod y sesiwn graffu a gynhaliwyd ar 11 Mai, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd gan Lywodraeth Cymru ffigurau i ddangos faint o brentisiaid sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu eu diswyddo. Esboniodd y Gweinidog y bydd darparwyr yn ceisio dod o hyd i gyflogwr arall i brentisiaid lle bo angen, ond yn y sefyllfa bresennol mae Aelodau'n pryderu y gallai darparwyr ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd tebyg i brentisiaid wrth i'r galw yn y farchnad lafur ostwng.

52. O dan delerau eu contractau â Llywodraeth Cymru, fel dewis olaf caiff darparwyr hefyd nodi camau gweithredu eraill sy'n briodol i gefnogi prentis sy'n cael ei ddiswyddo, e.e. cyfleoedd Twf Swyddi Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y byddai hwn yn ganlyniad siomedig i lawer o brentisiaid, yn enwedig y rhai ar brentisiaethau lefel uwch. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall sawl gwaith, os o gwbl, y mae hyn wedi digwydd.

Argymhelliad 32. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr i ddarganfod faint o brentisiaid sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli eu swyddi, a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd.

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru rannu gyda'r Pwyllgor nifer y prentisiaid heb swydd nad oedd darparwyr wedi gallu dod o hyd i leoliad newydd ar eu cyfer ac sydd naill ai wedi cael eu symud i raglenni cymorth cyflogaeth neu heb fod yn cael unrhyw hyfforddiant mwyach.

Yr effaith ar ddarparwyr hyfforddiant

53. Roedd y Pwyllgor yn falch bod y Gweinidog wedi egluro bod trefniant cyllido newydd wedi'i roi ar waith i gynorthwyo darparwyr hyfforddiant ac i leihau'r nifer a allai golli swyddi ymhlith eu gweithlu. Dywedodd Huw Morris, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg

Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru **wrth y Pwyllgor** mai diben y cyllid oedd cynnal y ddarpariaeth. Mae'r trefniant newydd yn seiliedig ar gyfartaledd y taliadau a wnaed i ddarparwyr rhwng mis Awst 2019 a mis Mawrth 2020.

54. Fodd bynnag, mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru wedi dweud er bod y taliad hwn yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol y rhwydwaith darparwyr ei fod hefyd yn arwain at ostyngiad yn y cyllid a ddisgwylir i'r sector. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith y bydd unrhyw ostyngiad mewn cyllid yn ei chael ar ddarparwyr dysgu yn y gwaith a'u gallu i adfer a chwrdd â'r galw uwch a ragwelir yn ystod unrhyw adferiad cenedlaethol.

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am fanylion ariannol y trefniant cyllido newydd ar gyfer darparwyr hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys faint y bydd darparwyr nawr yn ei dderbyn o gymharu â'r hyn y byddent wedi disgwyl ei dderbyn fel rheol.